

Pris: 50c

Papur Pawb

Mai 2014 Rhif 399



Pwy yw Glesni a Maldwyn?tud.11

tud 3	tud 6	tud 11	tud 12
Pobl a Phethe	Neges i'r Albanwyr	Y Gair Olaf	Dathlu yn y glaw

ACHUBWYD Y PATSYN PLANT



Sue Jones-Hughes a Heledd Bradley yn dathlu

Ar ôl misoedd o ddisgwyl fe ddaeth y cyhoeddiad fod y bargyfreithiwr Emyr Gweirydd Jones, a fu'n eistedd yn y gwrandawriad cyhoeddus yn ôl ym mis Hydref diwethaf, wedi penderfynu o blaid y cais i gofrestru'r Patsyn Plant ym Maesyderi fel tir cyhoeddus yn eiddo i'r gymuned. Bwriad tai Ceredigion yn wreiddiol oedd codi chwech o dai ond cwtogwyd hyn i bedwar tŷ, a chawsant ganiatâd gan y Cyngor Sir. Aeth rhai o drigolion Maesyderi ati i drefnu cofrestru'r tir ar gyfer y gymuned, ac o dan arweiniad arwrol Sue Jones-Hughes a Heledd Bradley, llwyddwyd i gasglu tystiolaeth a chael pobl i gynnig sylwadau yn y gwrandawriad cyhoeddus. Roedd Tai Ceredigion wedi cyflogi cyfreithiwr i ymladd eu hachos, ond Sue a Heledd a fynnodd gyflwyno achos trigolion Maesyderi, a buont yn llwyddiannus. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw credu yn yr hyn sy'n gyfiawn.

Mae'r ddeddf gynllunio wedi newid yn Lloegr er mwyn rhwystro pobl rhag cofrestru tir glas sydd â chaniatâd cynllunio arno i godi tai. Yng Nghymru ar hyn o bryd mae modd herio unrhyw ddatblygiad tai ar dir sydd wedi'i ddefnyddio ers ugain mlynedd ar gyfer hamdden drwy ei gofrestru fel tir gwyrdd sy'n eiddo i'r gymuned, ond bwriad Llywodraeth Cymru yn eu Bil Cynllunio newydd yw dilyn yr hyn sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth San Steffan.

Wrth ymateb i'r newyddion da am y Patsyn Plant, dywedodd Sue Jones-Hughes nad oedd wedi disgwyl y byddent yn ennill yr achos yn y pen draw, ond drwy help ei brawd, Peter Roderick, sy'n fargyfreithiwr yn Llundain, derbyniodd gyngor sut i fynd ati i gyflwyno'r achos ac i ateb llythyron y cyfreithiwr a gyflogwyd gan Dai Ceredigion. Erbyn hyn mae pobl yn stad Maesglas yn Aberteifi wedi cysylltu â Sue a Heledd i ofyn am eu cyngor wrth iddynt hwythau geisio cofrestru darn o dir yno ar gyfer y gymuned lle mae

Papur Pawb

40

DATHLU

MLWYDDIANT EIN PAPUR BRO

Cynhelir parti dathlu yn **Ysgol Gymunedol Tal-y-bont** ar **ddydd Gwener 6 Mehefin** rhwng **3.45 a 5.00**
Te prynhawn: cacen penblwydd: gwestai arbennig i ddiddanu'r plant
CROESO I BAWB O'R ARDAL I YMUNO YN YR HWYL

hefyd:
Cystadleuaeth: 'Be allwch chi ei wneud allan o rifyn o Papur Pawb?'
Beirniad: Stuart Evans. Gwobrau i blant, pobl ifanc ac oedolion.

Bydd rhifyn Mehefin Papur Pawb yn cynnwys atodiad arbennig i ddathlu'r achlysur. Yn y siopau ar 13 Mehefin.

Tai Ceredigion yn bwriadu codi hyd at naw o dai.

Wrth groesawu dyfarniad yr ymchwiliad cyhoeddus, dywedodd Sue a Heledd fod yr hyn a wnaethant fel brwydr Dafydd yn erbyn Goliath, a'u bod yn ddiochgar iawn i bobl Maesyderi a thrigolion Tal-y-bont a'r ardal gyfan am eu cefnogaeth. 'Golygodd hyn lot fawr o waith inni,' meddent, 'ond roedd y cyfan ei werth e yn y diwedd'.

Gwesty'r Llew Du

Black Lion Hotel

DÊL CINIO

2 GWRS - £9.95
3 CHWRS - £13.95

BETH AMDANI . . .

MERCHER - SADWRN
 12 TAN 3 Y PNAWN

01970 832 555
 croeso@gwestylllewdu.com

* yn amodol ar argaeledd

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781324
Maes-y-deri:		
Parsel Henllys:		
Bont-goch:		
Tre Taliesin:		
Tre'r-ddôl:		
Eglwysfach/Ffwrnais:		
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont Gwenllian Parry-Jones, Tegwen Jones John Leeding, Lynn Ebenezer, Gwenllian Parry-Jones	832093 832760 832433 832093 832448 832076
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgriadau:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Galw am luniau o'r llyfogydd

Oes gennych chi luniau neu fideo o lifogydd mawr 2012?

Mae Grŵp Llifogydd Tal-y-bont yn gweithio gyda'r cynhyrchydd ffilm, Sara Penrhyn-Jones o Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu Prifysgol Aberystwyth, i ddatblygu archif gymunedol o lifogydd 2012.

Mae Sara yn rhan o broiect a gyllidwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) sy'n casglu tystiolaeth gan bobl o bedair ardal ym Mhrydain a effeithiwyd gan lifogydd, gan gynnwys Y Borth, a welodd lifogydd o'r môr yn ddiweddar, a Thal-y-bont.

Bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio er mwyn cynorthwyo llunwyr polisi i gynllunio ar gyfer digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Fel rhan o'i gwaith bydd Sara'n cyfnewid rhai o drigolion Tal-y-bont yn sgil lifogydd 2012.

Yn y cyfamser, mae'r grŵp yn awyddus i gasglu unrhyw luniau neu fideo sydd gan bobl y pentref er mwyn sefydlu archif o'r digwyddiad ar gyfer y cenedlaethau a ddaw.

Os ydych yn dymuno cyfrannu at yr archif, cysylltwch ag Arthur Dafis ar 07841 979 452 / arthurdafis@googlemail.com, neu galwch â'ch deunydd draw i Mur Mawr, Tal-y-bont.

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Bistro
Gannets**



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth

617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

**CANOLFAN
M.O.T.**

**HUW
LEWIS**



**M.O.T.
CENTRE**

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

TEIARS

**HUW
LEWIS**



TYRES

Glanrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

Dyddiadur

MAI

11-17 Wythnos Cymorth Cristnogol

11 Bethel Y Gymanfa Ganu ym
Methel, Aberystwyth.

10 Oedfa'r Plant

5.30 Oedolion

Nasareth Y Gymanfa Ganu

Rehoboth Y Gymanfa Ganu

Eglwys Dewi Sant 11 Cymun

Bendigaid

15 Neuadd Goffa 2yp

Sefydliad y Merched 'Beetle Drive'

18 Bethel 5 Gweinidog

Nasareth

Rehoboth 10 Huw Roderick

Eglwys Dewi Sant 11 Cymun

Bendigaid

19 Merched y Wawr

Ymweliad â Llyfrgell Genedlaethol
Cymru

Bethel 10 Gweinidog

Nasareth

Rehoboth 5 Bugail

Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth

Teuluol

27 Llanfach, Taliesin

Cymdeithas Treftadaeth

Llangynfelyn

W. J. Edwards

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00

Cysylltwch a

Sue Jones-Davies

01970 624658

Gweithgareddau Gwarchodfa Adar Ynys Hir

Taith gerdded ben bore dydd

Sadwrn 10 Mai i wrando ar yr

adar yng nghwmni Neil Groves.

Cwrdd 6am wrth yn Ganolfan

Ymwelwyr. Oedolion £6, Plant

£3. Coffi a croissant i ddilyn.

Ffoniwch i sicrhau eich lle

01654 700222.

Arddangosfa bywyd gwyllt

gan yr arlunydd Chris Wallbank

yn y Ganolfan Ymwelwyr hyd

at 17 Mehefin.

Teithiau Tywys 2.00pm pob

dydd yn ystod 25 Mai – 1

Mehefin. Ffoniwch i sicrhau

eich lle 01654 700222.

Limerig gan Phil Davies yn

Eisteddfod Aberystwyth

Un hynod gariadus yw Mari,

A'i chusan fel bowlen o jeli,

Fel treiffl mawr hardd,

Mae'n apelio at fardd,

Sy'n hoffi ei bwdin yn wobli.

MEHEFIN

1 Bethel 10 Teuluol/Trefn leol

Nasareth 10 Bugail (C)

Rehoboth 10 John Hughes

Eglwys Dewi Sant 11 Cymun

Bendigaid

8 Bethel 10 Uno yn Nasareth

Nasareth 10 Parch Richard Lewis

Rehoboth 10 Bugail (C)

Eglwys Dewi Sant 11 Cymun

Bendigaid

15 Bethel 2 Parch Andrew Lenny

Nasareth

Rehoboth 10 Parch Richard Lewis

Eglwys Dewi Sant 11 Boreol

Weddi

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu eich
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
ddanfod y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442),
glenysedwards33@btinternet.com
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn
nesaf o Papur Pawb.

Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr
Cyfarfod Blynnyddol

7.30, Nos Lun
19 Mai 2014

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Croeso i Bawb

Cyngor Cymuned
Llangynfelyn
Cyfarfod Blynnyddol

7.00, Nos Lun
12 Mai 2014

Llanfach
Croeso i Bawb

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Delyth a Bleddyn, gyda
Iolo yn dylunio.

Golygyddion mis Mehefin
fydd Rhian

(rhian.evans@tiscali.co.uk)

a Catrin

(catrinssj@gmail.com)

gyda Ceri yn dylunio.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn

newyddion fydd dydd Gwener

6 Mehefin, a bydd y papur ar

werth ar 13 Mehefin.

Fasech chi'n hoffi byw am ddim yn Llundon?
Rydych chi'n helpu nos a bore gyda chysylltwch 5 and 2 ffredd
oed. Fydd chi'n ddiol yn rhydd i gynnwys swydd, gwasanaethau
neu i fwythau bod yn Llundon.
Rydych chi'n chwilio am berson sydd i'w helpu, dros 20 mlynedd oed i
ddechrau cyn gwylio a phroffesi. Rydych chi'n cynnwys ystafellau mewn 10
cyffwrddus a pob pryd bore, ond does dim tâl.
Os oes diddordeb gyda chi anfonwch e-bost i: Tomos
(tomos.grace@gmail.com)

Fy nghyfeiriad yw
Tomos Grace
28 Shalergate Road
Horse Hill
London SE24 0LB



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Dyn Michelin

Mae Kyle Rowlands o Faesyderi, Tal-y-bont, wedi cael ei ddewis gan gwmni teiars byd-enwog, Michelin, yn un o ddeg gosodwr teiars a fydd yn derbyn hyfforddiant arbenigol er mwyn rhoi'r cyngor gorau i yrwyr. Mae Kyle, sy'n 21 oed, wedi bod yn gweithio i gwmni Teiars Huw Lewis ers pedair blynedd, ac fe fydd yn defnyddio'r hyfforddiant arbennig a gafodd gan gwmni Michelin yng ngweithdy Huw Lewis ar stâd ddiwydiannol Glanrafon. Caiff Kyle gyfle yr haf hwn i ymweld â ffatri gynhyrchu teiars Michelin yn Nundee, yr Alban, lle bydd yn gweld drosto'i hun y dechnoleg ddiweddaraf o gynllunio a chynhyrchu teiars.

Croeso adref

Croeso adref i Robbie Southgate, gynt o Dan y Dderwen, Tal-y-bont, sydd wedi dod adref ar ôl treulio cyfnod yn byw ac yn gweithio yn Seland Newydd.

Prawf gyrru

Llongyfarchiadau i Elen Ebenezer, Maesyfelin, ac Eilir Huws, Henllan, Tal-y-bont, ar lwyddo i basio eu prawf gyrru yn ddiweddar.

Cartref newydd

Croeso mawr i Holly Morgan a'i chymar Wayne Aubrey sydd wedi symud i fyw i fynglo'r Gleanings ger pont y Ffald yn Nhal-y-bont. Roedd y ddau yn gweithio ym Manceinion, ond ers i Wayne gael swydd fel darlithydd yn Adran Gyfrifiadureg y Brifysgol yn Aberystwyth, mae Holly hitau wedi cael swydd yn ysbyty Bronglais. Dyna braf yw gweld merch o'r pentref yn dod yn ôl at ei gwreiddiau.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Siân a Geraint Pugh, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu mab, Dafydd Siôn, sef brawd i Elin Mair. Ganwyd Dafydd ryw dair wythnos cyn i'r teulu bach adael Tal-y-bont i fynd i Aberystwyth i fyw. Er y bydd yn chwith iawn eu gweld yn gadael y pentref, dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn y dref.

Llongyfarchiadau i Ian a Del, Yr Hen Ysgol, Eglwys-fach, ar enedigaeth eu hŵyr, Emllyn Owen Tansley ar 17 Ebrill, sydd yn fab i Siôn a Rhiannon ac yn frawd bach i Ellie Mair.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Tegwen Evans, Penygraig, Bont-goch ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau mawr i Jeffrey Spencer, Tŷ Manceinion, Tre Taliesin a Wendi Terry o Denton yn Swydd Northampton ar eu priodas yn Swyddfa Gofrestru'r Trallwng ar 14 Ebrill. Aethon nhw ymlaen i Westy Gwledig y Llyn, Llangamarch, i dreulio cwpl o nosweithiau ar ôl y seremoni.

Croeso

Croeso cynnes i Chris, Zoe a Kira sydd wedi symud i fyw i Dremfor, Tre Taliesin ym mis Ebrill.

Cyfle arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Issy Boorman, Bronallt, Tre Taliesin, ar sicrhau interniaeth yn Amgueddfa Casgliad Peggy Guggenheim yn Fenis ym mis Awst a Medi eleni. Go dda ti Issy!

Eglwys St Pedr, Bont-goch

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu ein ficer newydd, Y Parchg Andrew Loat, yn dilyn ei drwyddedu dros ofalaeth Llanbadarn, Penrhyn-coch, Capel Bangor & Elerch ar Nos Iau, 8 Mai.

Mae gan Eglwys Elerch dudalen ar Facebook erbyn hyn. Cofiwch ymweld er mwyn cael y newyddion diweddaraf: <https://www.facebook.com/EglwysElerch>

Ffarwél

Dymuniadau gorau i Raymond Andrews, 1 Tanyfoel, Eglwys-fach, wrth iddo symud o'r pentref i ddechrau ar ei fywyd newydd yng Nghaersws. Mae Raymond wedi byw yn y plwyf ers 68 mlynedd, ar ôl gadael yr ysgol fe ddechreuodd weithio ar y rheilffordd, bu yn

ŵr signalau yng Nglandyfi ac yn ddiweddarach yng Nghaersws. Arferai ei ewyrth Will Andrews gadw siop grydd y drws nesaf i'w gartref yn Nhanyfoel; roedd y siop yn gyrchfan boblogaidd ar nosweithiau Sadwrn i ddynion yr ardal gael chwarae cardiau a chael diferyn bach. Byddwn yn colli eich straeon Raymond, pob hwyli.

Gorau silwair, silwair Tŷ Nant

Llwyddodd teulu Tŷ Nant, Cwm Eleri, i ennill gwobr genedlaethol yng nghystadlaethau cynhyrchu silwair mewn byrnau a gynhaliwyd o dan nawdd Ffederasiwn y Cymdeithasau Tir Glas a Chymdeithas Sioe Amaethyddol Cymru ar gyfer 2013-2014. Daeth byrnau mawr Tŷ Nant i'r brig nid yn unig oherwydd ansawdd arbennig y silwair a oedd yn cynnwys meillion coch, ond hefyd am ddull effeithiol y peiriannau o'i drin a'i drafod a'r dull o'i borthi i'r anifeiliaid. Mae'r teulu'n cadw gyr o 50 o wartheg duon Cymreig a diadell o 1600 o ddefaid ar dir sy'n 980 troedfedd uwchlaw lefel y môr.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Hywel Williams, Cynnull Mawr, Tal-y-bont ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis.

Priodas

Llongyfarchiadau i Eifion Jenkins, Cerrigcyranau a Sara Downes o Langeitho ar eu priodas ar y 3ydd o Fai. Gobeithiwn gael llun ar gyfer y rhifyn nesaf.

Cydymdeimlo

Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth Beth, chwaer Delyth Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, ar ôl ei brwydr ddewr yn erbyn ei salwch. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Trist oedd clywed hefyd am farwolaeth Mrs Beryl Jones, priod Dafydd Rhagfyr Jones. Roedd y ddau yn wreiddiol o Dal-y-bont, Beryl yn fodryb i David Jones, Berthlwyd, a Dafydd yn fab i'r Parch Fred Jones. Symudodd y ddau i ardal Caerfyrddin tua deugain mlynedd yn ôl bellach. Cynhelir gwasanaeth coffa iddi ym Methel ddydd Gwener, 9 Mai.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Gertrude Ellen Davies (Gertie), 84 Maesyderi, Tal-y-bont, ar y 27ain o Ebrill. Cydymdeimlir â Mandy, Spencer, a Wendy a'u teuluoedd i gyd.

Y diweddar Dafydd 'Postman'

Yn ystod y mis diwethaf bu farw Mr Dafydd 'Postman' Williams a oedd wedi bod yn dorwr gwallt yng Nghasnewydd ers tua hanner can mlynedd. Roedd yn fab i Mr Williams y Post a Mrs Williams o Dal-y-bont, ac yn frawd i Wil a'r diweddar Peggy a Môn. Roedd ganddo hiraeth mawr am Dal-y-bont ar hyd ei oes, a chadwai mewn cysylltiad â llawer o'i ffrindiau yn rheolaidd. Cydymdeimlwn gyda'i or-nai, Aled Môn, a'i deulu o Lanilar, a'r teulu oll.

Y diweddar Frank a Pat Spice

Cafwyd newyddion trist yng Nghwm Ceulan yn ystod y ddau fis diwethaf pan glywyd am farwolaeth Frank a Pat Spice, gynt o Nant y Nod. Bu farw Frank ym mis Mawrth ac yntau bron yn 90 oed, a hefyd ei wraig Pat hitau'n marw ryw chwe wythnos wedyn yn 85 oed. I lawr yn Bournemouth yr oeddynt yn fyw ar hyn o bryd. Daethant i fyw i Nant y Nod gyda'u teulu o ardal Caint a buont yn hapus iawn yno am bron i 30 mlynedd. Roedd Frank yn grefftwr wrth ei waith yn atgyweirio clocioau a watsys am flynyddoedd lawer, a Pat yn glanhau mewn sawl cartref o amgylch yr ardal. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu o golli dau a oedd mor addfwyn.

Sefydliad y Merched Taliesin Llwyddiant yn Rali'r Sir



Arddangosfa 'Yr Ardd Ddirgel'.

Bu aelodau o Sefydliad y Merched Taliesin, yn hynod brysus yn ystod y misoedd diwethaf yn paratoi gogyfer â Rali Wanwyn y Sir a gynhaliwyd eleni yn Nhregaron ddydd Sadwrn 12fed Ebrill. Yn sgil yr ymdrech i gynllunio a chydweithio i lwyfannu cystadleuaeth gydweithredol ar y thema 'Yr Ardd Ddirgel', daeth Taliesin yn ail yn y Sir. Cawsom lwyddiant hefyd ym mhob un o'r

adrannau unigol, yr adran gosod blodau, gwaith llaw a choginio gan ddod yn ail yn y Sir hefo'r nifer uchaf o bwyntiau. Enillodd Beti Wyn, ein llywydd, y darian am yr eitem orau yn yr adran goginio.

Ar ddiwedd mis Ebrill, bu nifer o'r aelodau yn codi arian drwy gerdded o gwmpas Aberaeron. Taith gerdded i godi arian i ACWW sef mudiad byd-eang merched y byd oedd hon ac mi ddaeth tua 60 o Geredigion at ei gilydd i gefnogi'r achos hwn.

Cynnyrch gorau, cynnyrch lleol



Nigel Callaghan a Mike Parker gyda Jill Evans

Pleser fu croesawu Jill Evans, ymgeisydd Ewropeaidd a'r Aelod Seneddol Ewropeaidd dros Blaid Cymru i Siop Cynfelyn, Tre'r Ddôl. Roedd yn gyfle i Jill brofi'r danteithion lleol ar werth yno yn ogystal â chael cwrdd â'r gwirfoddolwyr. Cafodd gyfle hefyd i gael clywed am y cynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer y misoedd nesaf i'r antur. Brai iawn oedd iddi weld menter gymdeithasol mor llwyddianus sy'n creu cyfleon i nifer yn ogystal â chreu canolbwynt newydd i fywyd yn yr ardal.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth



Merched Rehoboth yng Nghastell Glandyfi

Daeth tymor y Gymdeithas i ben am eleni ar brynhawn Mawrth, 8 Ebrill pan fwynhaodd yr aelodau de prynhawn yng Nghastell Glandyfi, a hithau'n ddiwrnod braf o wanwyn. Croesawyd pawb gan Eiriona Metcalfe, ac ar ôl y wleded hyfryd cawsom gyfle i fwynhau'r golygfeydd bendigedig o'r castell.

Galw am balmant diogel



Mae'r neges yn glir ar y placardiau

Ar fore dydd Sadwrn olaf Ebrill daeth torf dda o bobl Ffwrnais ac Eglwys-fach a'r cyffiniau at ei gilydd i orymdeithio o Landyfi draw i'r Ffwrnais er mwyn tynnu sylw at ymgyrch Cyngor Cymuned Ysgubor-y-coed am gael palmant diogel ar ochr y ffordd rhwng y pentrefi. Roedd y Cyngor wedi deall bod popeth yn ei le ar gyfer ariannu palmant newydd yn 2012 pan oedd cynllun gwella'r ffordd yng Nglandyfi yn mynd rhagddo, ond clywsant gan Lywodraeth Cymru nad oedd digon o arian ar gael i wneud y gwaith. Roedd y gwaith o ymgynghori â thirfeddianwyr lleol ar hyd y ffordd wedi'i wneud, ac yr oedd y trigolion yn gobeithio y byddai'r arian ar gael i ddechrau ar y gwaith.

Yn ystod yr orymdaith fe welwyd pa mor beryglus yw'r ffordd ar gyfer cerddwyr wrth i geir a lorïau mawrion wibio heibio. Roedd Alison Swanson, is-gadeirydd y Cyngor Cymuned, a'i chyd-gynghorwyr yn falch iawn fod cymaint o bobl wedi troi allan: 'Yr ydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru'n gwrando arnom gan fod tuedd iddynt anghofio am anghenion pobl gogledd Ceredigion,' meddai. 'Bydd ein Cynghorydd Sir, Ellen ap Gwynn, yn mynd i weld y Gweinidog Trafnidiaeth, Edwina Hart, mewn cyfarfod yng Nghaerdydd ac yn pwysu arni i neilltuo arian ar gyfer creu'r palmant.'

Ar ôl y cyfarfod a gafodd gydag Edwina Hart yng Nghaerdydd, dywedodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn: 'Mae'r Gweinidog yn gwybod pa mor beryglus yw'r ffordd ac roedd yn ymwybodol o'r brotest a maint teimladau pobl yr ardal ynghylch yr angen am lwybr troed diogel. Byddaf yn parhau i bwysu ar y Llywodraeth i roi arian ar gyfer y gwaith.'

Camp Elaine


Ystyria Elaine Rowlands, Maesyfelin, Tal-y-bont, fod rhedeg Marathon Llundain ganol Ebrill yn brofiad bythgofiadwy. 'Roedd y gefnogaeth ar hyd y cwrs yn drydanol,' meddai wrth Papur Pawb a llwyddodd i weld ei theulu, oedd wedi teithio i Lundain gyda hi, ddwywaith yn ystod y ras. Gyda'r dorf yn bloeddio, teimlai fel 'celeb' yn rhedeg y filltir olaf tuag at Balas Buckingham: 'Roedd fel rhedeg yn y gemau Olympaidd!'. Nod Elaine oedd gorffen mewn llai na phump awr ac roedd yn falch iawn o groesi'r llinell derfyn mewn pedair awr a 22 munud.

Dymuna Elaine ddiolch i bawb a'i noddodd. Ar hyn o bryd mae wedi codi £1390 o arian nodd i Gyfer y Gymdeithas Strôc a Hosbis Tŷ Hafan ond mae'n parhau i gasglu, gan obeithio cyrraedd £2,000 erbyn y diwedd. Mae'n arbennig o ddiolchgar am y gwaith codi arian a wnaed gan Salon Leri.

Llongyfarchiadau i Elaine ar ei champ a chofiwch y gallwch ei chefnogi o hyd drwy anfon arian nawdd ati.



Dros y Top



Elan a Steffan gyda'r actores Rhian Blythe a fu'n eu cyflwyno ar y noson.

Cafodd Steffan Nutting ac Elan Elidyr, Tal-y-bont, y cyfle i gymryd rhan yn sioe ddiweddaraf Cwmni Theatr Bara Caws am y Rhyfel Byd Cyntaf, *Dros y Top*. Yn ystod y sioe a gynhaliwyd yn Theatr y Werin, Aberystwyth, ar 14 Ebrill, cafwyd cyflwyniad byr gan y ddau yn seiliedig ar hunangofiant J. M. Davies, Taliesin gynt, a fu'n filwr yn y rhyfel.

Wedi i Elan gyflwyno'r cefndir, darllenodd Steffan y darn o'r hunangofiant sy'n sôn am y frwydr ar Gefn Pilckem, Gwlad Belg, yn 1917, lle y cafodd Hedd Wyn ei ladd. Tafluniwyd ffotograff o J. M. Davies yn ei lifrai filwrol ar y sgrin y tu ôl i Steffan. Roedd Steffan yn gwisgo cot fawr frown ac edrychai'n debyg iawn i'r milwr yn y llun.

Yn y gynulleidfa yr oedd Eiriona Metcalfe, Taliesin,



J.M.Davies

merch J. M. Davies, a'i gŵr Bil. Bydd modd darllen mwy o hanes J. M. Davies pan fydd cyfrol Gwyn Jenkins, Tal-y-bont, *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* yn ymddangos ym mis Gorffennaf.

O'R CYNULLIAD

Wrth i mi ysgrifennu'r golofn hon, mae'r gwanwyn wedi'n cyrraedd go iawn. Mae'r haul yn tywynnu a dipyn o ymwelwyr i'w gweld ar hyd Ceredigion. Gwych yw gweld y sir wedi ymdopi mor dda yn dilyn y stormydd gaeafol. Mae yna dipyn yn mynd ymlaen nawr i hybu diwydiant ymwelwyr Ceredigion. Mae hysbysebion ar y teledu, ac wrth gwrs daw'r Gwyll i gynulleidfaoedd BBC4 cyn hir, gydag ail gyfres i ddod. Gwn hefyd fod nifer o fusnesau lleol yn gwneud llawer i hybu'r ardal. Mae cysylltiad band llydan yn broblem i rai, ond rwy'n parhau i bwyso ar BT a Llywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa. Mae gwifrau fibr 'superfast' nawr yn cael eu gosod yn Aberystwyth, a gobeithio y gwelwn welliannau sylweddol i'r sir gyfan dros y flwyddyn nesaf.

Dros y misoedd nesaf, bydd rhywfaint o newid byd ym Mwrdd Hywel Dda. Mae hi bellach wedi ei gadarnhau y bydd cadeirydd a phrif weithredwr ein bwrdd iechyd lleol yn gadael eu swyddi. Gobeithiaf yn fawr y bydd hyn, yn ogystal â'r adolygiad o wasanaethau iechyd sydd ar droed yn y Canolbarth, yn cynnig cyfle i edrych o'r newydd ar bolisiau iechyd yn ein hardal. Bu'r cyfnod diweddaraf yn un pryderus, wrth i welyau gau yn Ysbyty Aberteifi, a bygythiadau i driniaeth y galon ym Mronglais. Mae'n bwysig fod penaethiaid Bwrdd Hywel Dda yn deall y canlyniadau a ddaw yn sgil gorganoli gwasanaethau yn



ein hardal ni. Byddai'n golygu gorfod teithio'n bellach, a rhoi gormod o bwysau ar Glangwili. Byddaf yn parhau i ymgychu ar hyn fel y flaenoriaeth uchaf dros y misoedd nesaf, ac rwy'n wedi cyhoeddi nifer o syniadau polisi at y dyfodol ar faterion fel y defnydd o dechnoleg fodern i hwyluso'r Gwasanaeth Iechyd, hybu cydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, a recriwtio mwy o staff.

Ymhlith y materion eraill sydd wedi bod yn cael sylw dros y mis diwethaf mae diogelwch ffyrdd. Bûm yn cwrdd â grwpiau lleol mewn nifer o leoliadau – o Eglwys-fach yn y gogledd i'r ffin gyda Sir Benfro yn y de – lle mae angen gwella. Da oedd clywed am fuddsoddiad mewn gwella diogelwch i blant sy'n cerdded i'r ysgol mewn ambell ardal fel Comins Coch. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych eto ar ddiogelwch ysgolion sydd ar briffyrdd, felly rwyf wedi bod yn dwyn eu sylw at achosion fel Llanarth a Phenparcau, i weld beth fedrir ei wneud i wella'r sefyllfa.

Elin Jones

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
whitelionhotel1@btconnect.com

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

O raid y cân y dryw

Mae eleni yn ganmlwyddiant geni fy nhad, Gwyn Evans, un o gyn-weinidogion Bethel Tal-y-bont. Fe'i ganed ar yr 28ain o Ebrill 1914 ar aelwyd Blaenffynnon, Tegryn, yn un o ddeg o blant. Colodd ei fam a'i dad yn gynnar ac fe fagwyd y plant gan chwiorydd ac aelodau eraill y teulu. Roedd y golled yn friw ddolurus, a phrin y cofiaf amdano yn yngan gair am ei rieni. Pan oedd yn ifanc roedd yn cael ei adnabod fel Dai Bach Argoed – David oedd ei enw cyntaf, ac Argoed oherwydd iddo fynd i wasanaethu ar fferm Argoed ger Login, Hendy-gwyn ar Daf. Mynychai gapel Cwm-miles gerllaw ac oddi yno y codwyd ef i'r weinidogaeth. Aeth i Goleg y Presbyteriaid yng Nghaerfyrddin a threuliodd gyfnod ym Mhrifysgol Abertawe.

Sir Gaerfyrddin a brofodd dalp helaeth o'i wasanaeth fel gweinidog. Ei blwy' cyntaf oedd Gwernogle a Llidiad-nenog, symud i Lanwrda, wedyn Llandybie, yna Pencader ac Alltwalis cyn croesi'r Teifi i Dal-y-bont yn 1968. Ar wahân i Wernogle (nid oeddwn wedi fy ngeni!) dyma'r llefydd lle treuliais i fy llencyndod a phan fydd rhywun yn holi byddaf yn datgan yn bendant mai plentyn Sir Gâr ydwyf – er imi fyw yn Sir Aberteifi am gyfnod hirach o lawer a derbyn croeso cynnes yn y Sir.

Prif ddiddordeb fy nhad oedd barddoni a chynganeddu. Fel ei frawd, y Prifardd Tomi Evans, dysgodd y cynganeddion wrth draed Owen Davies, teiliwr y Glog, pentref cyfagos. Enillodd nifer fawr o gadeiriau mewn eisteddfodau taleithiol a chipiodd y wobwr am yr englyn a'r cywydd yn y Genedlaethol sawl gwaith. Roedd yn un o aelodau cyntaf tîm ymryson y beirdd Sir Gaerfyrddin ac yng nghwmni Leslie Richards (tad Mrs Diana Jones) ac Amanwy (brawd yr aelod seneddol Jim Griffiths) byddai'n teithio i stiwdios y BBC yn Abertawe i gymryd rhan yn y gornestau. Tra mod i'n edmygu crefft a dawn y talynwyr cyfoes, dyldid cofio bod Ymryson y Beirdd yn rhaglen fyw. Byddai'r beirdd yn derbyn eu tasgau gan R. J Rowlands, y Meuryn gwreiddiol, ac yn gorfod dychwelyd mewn rhyw gwa bum munud i ddarlledu englyn neu linell. Mater o raid oedd hi!


Mae tri emyn o'i waith yng *Nghaneuon Fydd*. Fy ffefryn yw rhif 239 sy'n seiliedig ar y Gwynfydau. Dyma bennill

Pan welir chwalu teulu'r Tad
Gan ryfel gyda'i dwyll a'i frad,
Gwyn fydd y rhai sy'n caru hedd
Rhwyng dyn a dyn yn fwy na'r cledd.

Yn naturiol cyrchfan fy nhad adeg yr Eisteddfod Genedlaethol oedd y Babell Lên a byddai'n treulio oriau yno yn ymrysona. Yn ystod y cyfnodau hyn ni allai feddwl am ddim na neb arall ac roedd ei arfer o gerdded ar draws y maes mewn cawod drom ac yn cario côt law o dan ei gesail yn jôc deuluol. Cyhoeddwyd cyfrol o'i gerddi *Caniadau'r Dryw* yn 1990 ac fe ddaw'r teitl o englyn cyfarch iddo gan Dîm Ymryson Morgannwg a Gwent.

Cana'r adar o bob rhyw – ariau
Sy'n cyffroi dynolryw;
Er hwyl y cân y rhelyw
Ond o raid y cân y dryw.

GIE



DATHLU 40

Cyhoeddir rhifyn 400 Papur Pawb ym mis Mehefin, deugain mlynedd er sefydlu'r papur yn 1974.

Er mwyn dathlu'r achlysur, cynhelir parti yn Ysgol Tal-y-bont ar 6 Mehefin (gweler yr hysbyseb ar y dudalen flaen) ac yn y rhifyn hwnnw fe fydd atodiad arbennig yn edrych yn ôl dros 40 mlynedd o newyddion lleol.

Byddwn hefyd yn cynnal cystadleuaeth : 'Be allwch chi ei wneud allan o rifyn o Papur Pawb?' – sef creu gwaith 2D neu 3D allan o un rhifyn o Papur Pawb. Bydd gwobr am y gwaith gorau o fewn pedair adran – plant cyfnod sylfaen; plant oedran cynradd; disgyblion oedran uwchradd; ac oedolion. Y dyddiad cau yw dydd Llun 2 Mehefin a dylai'r cystadleuwyr fynd â'u cynigion i'r Neuadd Goffa rhwng 3.30 a 6.00 p.m. ar y diwrnod hwnnw. Y beirniad fydd Stuart Evans o Amgueddfa Ceredigion. Bydd modd gweld yr holl gnygion yn y parti dathlu ar 6 Mehefin.

Cofiwch fod y parti dathlu yn agored i bawb yn yr ardal. Dewch draw i Ysgol Tal-y-bont o 3.45 ymlaen ar ddydd Gwener, 6 Mehefin. Cymdeithas Papur Pawb

Ffilmio neges i'r Albanwyr



Heledd wrth ei gwaith y tu ôl i'r camera.

Myfyrwraig yn astudio Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth yw Heledd Jones o Gysgod y Llan, Tal-y-bont. Gwnaeth gwrs dwy flynedd yng Ngholeg Ceredigion cyn cychwyn ar ei chwrs gradd yn y Brifysgol, ac yn ddiweddar cafodd gyfle i gyfrannu at brosiect ar weinir gan ddau o'i thiwtoriaid, Sara Penrhyn-Jones a Greg Bevan. Mae'n brosiect gwahanol i'r arfer, oherwydd yr hyn y bydd Heledd yn ei wneud yw creu ffilm o ryw 10 munud o hyd lle bydd yn ffilmio nifer o bobl wahanol yn mynegi eu cefnogaeth i'r ymgyrch o blaid cael annibyniaeth i'r Alban. Y bwriad yw cael croestoriad o bobl o bob oedran yn dweud gair o gefnogaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu'n dal arwydd yn dweud 'Ie i'r Alban'. Caiff y ffilm derfynol ei dangos mewn noson gymdeithasol ac ar wefan National Collective (nationalcollective.com), sef gwefan mudiad a sefydlwyd gan artistiaid ac awduron yn yr Alban er mwyn cefnogi'r ymgyrch dros annibyniaeth. Mae gan y mudiad dros 2,000 o aelodau. Bwriada criw o Gymry artistig a chreadigol sy'n gefnogol i'r ymgyrch ymweld â'r wlad cyn y refferendwm ar 18 o Fedi eleni er mwyn dangos y ffilm.

Meddai Heledd, 'Bydd hyn y gyfle da i fi gael y profiad o drefnu ffilmio gwahanol bobl mewn lleoliadau gwahanol, a bydd yn beth da i'w roi i lawr ar fy CV.'

Fel rhan o'i chwrs gradd hefyd mae Heledd yn gobeithio treulio un semester yn astudio ffilm a theledu ym Mhrifysgol Bowling Green, Ohio, yn yr Unol Daleithiau. Ac os bydd pobl yr Alban yn pleidleisio dros annibyniaeth ym mis Medi, bydd Heledd yn gallu dweud iddi hithau fod â rhan fach yn yr ymgyrch drwy gyfrannu at greu'r ffilm fer hon yn cofnodi negeseuon o gefnogaeth rhai o'r Cymry.

Taith wirfoddoli i Tanzania

Bydd Zoe Forster Brown yn teithio i Tanzania yn mis Gorffennaf i wirfoddoli efo Prosiectau Tramor (*Projects Abroad*) am fis o waith i helpu mewn cartref gofal ar gyfer plant amddifad. Mae tua 40% o blant amddifad y wlad wedi eu heffeithio gan HIV/AIDS, ac mae llawer o'r cartrefi gofal yn ei chael yn anodd i fwydo, dilladu ac addysgu y plant yn eu gofal. Bydd Zoe yn treulio amser gyda rhai o'r plant hyn, yn helpu i ofalu amdanynt gan fyw gyda theulu lleol.

Gan na fydd Zoe yn derbyn tâl ar gyfer y prosiect yma, bydd angen codi arian i dalu am ei hawyren, ffi Prosiectau Tramor a chost pigiau. Mae'n gobeithio talu am hyn drwy ofyn i bobl ei nodd i a chynnal gweithgareddau codi arian (gweler digwyddiadau yr Ystafell Haearn). Dywed Zoe: 'Rwyf yn gobeithio cael cefnogaeth gan fy nheulu a ffrindiau. Mae pob cyfraniad yn help i mi gyrraedd fy nod. Diolch ichi o flaen llaw am unrhyw gefnogaeth y gallwch ei chynnig'.

Dymuniadau gorau iddi ar ei thaith ddewr. Dyma fanylion gwefan codi arian Zoe: <https://fundrazr.com/campaigns/biqF3/ab/134Fz2>

Digwyddiadau yn yr Ystafell Haearn, Eglwys-fach

Clwb Llyfrau: Pnawn Gwener 9 Mai, 2.00pm. Y llyfr dan ddrafodaeth fydd *The Promise of Happiness* gan Justin Cartwright. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Wendy, 01654 703730.

Sefydliad y Merched: Nos Lun 12 Mai, bydd Carol Bryan yn siarad ar y testun 'Wills and Things: a combo of Wills, Probate and Power of Attorney'. Croeso i bawb.

Dawnsio Albanaidd

Dewch i ymuno yn yr hwyl nos Fercher 21 Mai, 7.30. Croeso cynnes i bawb.

Dosbarthiadau ymarfer

Bydd Heather Williams (01970 612026) yn rhoi blas ar ddosbarth ymarfer symudiadau meddylgar, yn seiliedig ar ei phrofiad 25 mlynedd o ddysgu Tai Chi a thyllino'r corff dydd Mercher 21 Mai, rhwng 3.00-4.30. Nid oes angen profiad, bydd casgliad tuag at ddefnyddio'r Ystafell Haearn. Dewch mewn dillad cyfforddus ac esgidiau fflat. Cysylltwch drwy ebost neu ffôn bri_hez@yahoo.com os oes diddordeb gennych.

Pnawn o Frecwast yn Tiffany

Dewch i gael te a chacen pnawn Sul 25 Mai, 3.00pm. Cesglir arian at brosiect gwirfoddoli Zoe Forster Brown.

Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach

Bore coffi ac arwerthiant planhigion yn yr Eglwys dydd Sadwrn 24 Mai, 10.30-12.30. Bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at gynnal a chadw y fynwent sydd yn costio tua £500 y flwyddyn. Dewch â'ch planhigion i'w gwerthu neu dewch i brynu at yr achos da hwn.

Cystadleuaeth Gelf

Mae dyddiad cau y gystadleuaeth wedi ei ohirio tan benwythnos yr Arddangosfa Gelf a Chreffit, 15-17 Awst. I gystadlu anfonwch ddarluniad du a gwyn o'r Eglwys (tu mewn neu tu allan i'r adeilad) at Janie Agnew, Garth House, Ffwrnais. Gwobr £20 i'r darlun buddugol.

Digwyddiadau Clwb Nos Wener

Nos Wener, 16 Mai
8.00 o'r gloch, Y Llew Du, Tal-y-bont
Sioe 'Dynes a Hanner'
yng nghwmni Rhian Morgan a Llio Silyn.

Nos Wener, 27 Mehefin
8.00 o'r gloch, Y Llew Du, Tal-y-bont
Sioe gomedi
yng nghwmni Eilir Jones, 'Ffarmwr Ffowc'

Clwb Nos Wener



Y ddeuawd ddawnus Ynyr ac Eurig o'r grŵp Brigyn oedd yn diddanu yng Nghlwb Nos Wener ym mis Ebrill. Roedd y ddau frawd, a ddaw'n wreiddiol o Lanrug ger Caernarfon ond sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd a Llangennech, yn falch o gael dod yn ôl i gynnal noson yn y Canolbarth. Aeth dros ddeng mlynedd heibio ers iddynt gyhoeddi eu CD gyntaf o'r enw Brigyn. Yn ystod y degawd diwethaf maent wedi mwynhau cryn lwyddiant ac wedi ennill nifer o ddilynwyr ac edmygwyr. Fe gynhalion nhw set helaeth o ddwy awr o hyd yn cynnwys ugain o ganeuon, a chlywyd llawer o'u ffefrynnau yn cynnwys 'Lleisiau', 'Kings, Queens, Jacks' ac 'Os na wnei di adael nawr', yn ogystal ag ambell gân newydd oddi ar y CD a fydd yn ymddangos cyn diwedd y flwyddyn. Pan alwyd arnynt am un gân arall i gloi'r noson, roedd croeso mawr i'w fersiwn arbennig nhw o glasur Leonard Cohen, 'Halleluia'.

Gan fod Ynyr ac Eurig bellach yn rhieni, dydyn nhw ddim yn crwydro cymaint i gynnal nosweithiau, ond roedd y ddau frawd hynod ddiymhongar yn amlwg yn falch o'r ymateb a'r gwrandawriad astud a gawsant gan y gynulleidfa yn y Llew Du, Tal-y-bont. Diolch i Martin a Siân am drefnu noson wych.

**Morlan**
Canolfan fydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- **Cinio Cawl** (11.30-1.30, 17 Mai). Er budd Cymorth Cristnogol. Cyfle i gymdeithasu a mwynhau a chefnogi'r mudiad hwn sy'n ceisio rhoi dyfodol heb ofn i bobl. Mynediad: £3 (yn cynnwys cawl a rôl).
- **Y Môr** (16 Mehefin-1 Awst). Arddangosfa o gelf a barddoniaeth ar thema Y Môr.
- **Taith o amgylch yr Hen Goleg** (6.00, 25 Mehefin) gydag Elgan Philip Davies.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

FFAIR GWIRFODDOLWYR

Dydd Iau, Mehefin 5^{ed}

10:00 – 16:00

Diwrnod agored i fwynhau,
dathlu a hyrwyddo gwirfoddoli

Mynediad am ddim!

gwd@llgc.org.uk / 01970 632991



**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5JH
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

**argraffu da
am bris da**



Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yolfa.com
01970 832 304 www.yolfa.com



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187

E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Canlyniadau Eisteddfod Ysgol Tal-y-bont

(L = Leri; C = Ceulan)

Llefaru Blwyddyn 1

1. Ember Meek (L)
2. Caoimhe Melangell (C)
3. Gethin Davies (C)

Canu Blwyddyn 1

1. Carys Joseph (C)
2. Glain Jones (C)
3. Caoimhe Melangell (C) a Gethin Davies (C)



Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Llefaru Blwyddyn 2

1. Miriam Davies (L)
2. Iestyn Putt (C)
3. Efa Saunders-Jones (C)

Canu Blwyddyn 2

1. Miriam Davies (L)
2. Efa Saunders-Jones (C)
3. Iestyn Putt (C)

Llefaru Dosbarth Derbyn

1. Rhodri Davies (C)
2. Ela Jones (C)
3. Elen Lloyd-Williams (L)

Canu Dosbarth Derbyn

1. Tyler Murray (C)
2. Grace Melad-Woodling (L)
3. Rhodri Davies (C)

Llefaru Blwyddyn 3

1. Emily Morris (L)
2. Chloe Farr (L)
3. Brandon Kelly (C)

Canu Blwyddyn 3

1. Cloe Farr (L)
2. Joel Bradley (L)
3. Catrin Jones (L)

Llefaru Blwyddyn 4

1. Oisín Lludd (C)
2. Cai Tomos (C)
3. Becca Fleming-Jenkins (C)

Canu Blwyddyn 4

1. Becca Fleming-Jenkins (C)
2. Oisín Lludd (C) Ioan Joseph (C)
3. Angharad Williams (C) ac Elinor Davies (C)

Llefaru Blynnyddoedd 5 a 6

1. Glain Davies (L)
2. Tia Johnson-Jones (L)
3. Nia Benham (L) a Fabien Roberts (C)

Canu Blynnyddoedd 5 a 6

1. Glain Davies (L)
2. Heledd Davies (C)
3. Emily Bradley (C)

Piano CA 2

1. Nia Benham (L)
2. Heledd Davies (C)
3. Fabien Roberts (C) a Glain Davies (L)

Pres CA2

1. Elinor Davies (C) a Cai Thomas (C)
2. Alex Spollen (L)
3. Ioan Joseph (C)

Llinynnol CA2

1. Oisín Lludd (C)
2. Nia Benham (L) a Tia Johnson-Jones (L)
3. Angharad Williams (C)

Chwythbrennau CA2

1. Nia Benham (L)
2. Glain Davies (C)

Offeryn Cyfnod Sylfaen

1. Efa Saunders-Jones (C) a Miriam Davies (L)

Côr

1. Ceulan
2. Leri

Celf Dosbarth Derbyn

1. Clarice Renshaw (C)
2. Evie James (C)
3. Jayden Hopkins (C)

Celf Cyfrifiadurol Dosbarth Derbyn

1. Isabelle Davies (L)
2. Lauren Evans (L)
3. Alfie Davies (L)

Celf Blwyddyn 1

1. Ember Meek (L)
2. Glain Jones (C)
3. Rhoswen Evans (L)

Llawysgrifen Blwyddyn 1

1. Ember Mek (L)
2. Rhoswen Evans (L)
3. Caoimhe Melangell (C)

Celf Blwyddyn 2

1. Efa Saunders-Jones (C)
2. Miriam Davies (L)
3. Zak Hopkins (C)

Llawysgrifen Blwyddyn 2

1. Sean Spollen (L)
2. Iestyn Putt (C)
3. Efa Saunders-Jones (C)

Celf Blwyddyn 3

1. Grace James (C)
2. Chloe Farr (L)
3. Thérèse Melad-Woodling (L)

Llawysgrifen Blwyddyn 3

1. Therese Melad-Woodling (L)
2. Catrin Jones (L)
3. Emily Morris (L)

Celf Blwyddyn 4

1. Oisín Lludd (C)
2. Sky Foulston (L)
3. Steffan Ellis-Evans (L)

Llawysgrifen Blwyddyn 4

1. Becca Fleming-Jenkins (C)
2. Oisín Lludd (C)
3. Angharad Williams (C)

Celf Blynnyddoedd 5 a 6

1. Tia Johnson-Jones (L)
2. Emily Bradley (C)
3. Fabien Roberts (C)

Llawysgrifen Blynnyddoedd 5 a 6

1. Heledd Davies (C)
2. Nia Benham (L)
3. Libby Foulkes (L)

Llenyddiaeth Gymraeg

Blynnyddoedd 3 a 4

1. Oisín Lludd (C)
2. Becca Fleming-Jenkins (C)
3. Cai Thomas (C)

Llenyddiaeth Saesneg

Blynnyddoedd 3 a 4

1. Cai Thomas (C)
2. Angharad Williams (C)
3. Becca Fleming-Jenkins (C)

Llenyddiaeth Gymraeg

Blynnyddoedd 5 a 6

1. Tia Johnson-Jones (L)
2. Fabien Roberts (C)
3. Heledd Davies (C)

Llenyddiaeth Saesneg

Blynnyddoedd 5 a 6

1. Nia Benham (L)
2. Kaitlyn Farr (L)
3. Jade Morris (L)

Cerdd y Gadair

1. Heledd Davies (C)
2. Billy Swanson (C)
3. Oisín Lludd (C)

Tlws llenyddiaeth

Cai Thomas (C)

Tarian Catrin Maesmeillion (celf a llawysgrifen)

Ember Meek (L)

Tlws Mair Nutting i'r llefarydd gorau

Oisín Lludd (C)

Ysgol Tal-y-bont



Ysgol Iach

Fel rhan o gynllun Ysgol Iach yr ysgol, aeth yr ysgol gyfan am dro i goedwig Allt-y-Crib. Roedd hi'n ddiwrnod braf ac roedd y golygfeydd yn werth eu gweld. Roedd hi'n gyfle da i atgoffa'r plant am ddiwydiant mwynloddio'r ardal hefyd.



Eisteddfod yr Ysgol



Cwpan Anwylyd Evans i'r marciau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen
Miriam Davies (L)

Perfformiad gorau yn y Cyfnod Sylfaen
Miriam Davies (L)

Tarian Dylan a Dwynwen Morgan i'r marciau unigol uchaf
Oisín Lludd (C)

Tarian Carregcadwgan i'r tŷ buddugol
Ceulan

Ymweliad â Choed Gogerddan

Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen i Goed Gogerddan ar ddechrau'r tymor fel ysgogiad i'w thema newydd sef 'Cuddfannau a Dant y Llew'. Yng nghwmni Leigh Denyer o Gyfoeth Naturiol Cymru, aeth y plant am dro drwy'r goedwig yn dysgu enwau'r coed a'r planhigion. Dysgont eu bod yn medru mesur o gwmpas boncyff coeden er mwyn gweithio allan oed y goeden. Roedd un goeden yn y goedwig dros 300 mlwydd oed. Mae'r plant a Mrs Nelmes wedi penderfynu mynd ati i weld pa mor hen ydy'r coed derw mawr sydd ar dir yr ysgol. Cewch wybod cyn bo hir beth yw'r canlyniadau! Ar ôl picnic hyfryd yn eistedd yng nghanol y goedwig, bu'r plant yn adeiladau cuddfannau, yn chwarae yn y coed ac yn tostio marshmallows ar y tân. Cafwyd diwrnod arbennig iawn.

Ysgol Llangynfelyn



Disgo Pasg

Trefnodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddisgo Pasg ar gyfer y plant a'r rhieni cyn gwyliau'r Pasg. Thema'r disgo oedd y chwedegau gan fod Dosbarth Miss Jones wedi bod yn astudio'r cyfnod yma yn ystod y tymor. Gwisgodd y plant, y rhieni a'r staff mewn dillad o'r chwedegau a chafwyd cymysgedd o gerddoriaeth fodern a cherddoriaeth o'r cyfnod. Mwynhaodd pawb y dawnsio a chafwyd *catwalk* Sioe Ffasiwn i feirniadu'r gwisgoedd gorau. Diolchwn i rieni Felix am wneud y disgo ac i bawb a gyfrannodd at y noson.



Penwythnos Llangrannog

Aeth criw o ddisgyblion Blynnyddoedd 4, 5 a 6 i Wersyll yr Urdd Llangrannog am benwythnos ar ddechrau mis Ebrill. Er gwaethaf y tywydd gwael, cafodd y plant gyfleoedd i flasu amryw o weithgareddau. Y ffefrynnau oedd sgïo, merlota a mynd ar y go-cart. Diolchwn yn fawr iawn i Miss Jones a Miss Fflur am fynd gyda'r plant am y penwythnos.

Disgybl Newydd

Croesawn Rowan Tvedt nôl atom i'r ysgol i Flwyddyn 5. Gobeithiwn y bydd hi'n hapus iawn yma gyda ni.



Pacio Bagiau

Aeth criw bychan o rieni, plant a staff i archfarchnad Morrisons am dair awr ar fore Sadwrn cyntaf gwyliau'r Pasg i bacio bagiau cwsmeriaid er mwyn codi arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Roedd yn dair awr brysur iawn a llwyddwyd i gasglu £200.

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



STORFA
CARTREF a BUSNES

Storio Hyblyg Diogel

Ystafelloedd storio i siwtio eich gofynion



TCC a Monitro Diogelwch 24 Awr

Wedi Gynhesu

Ar Werth

Bocsys, Bwrlwm Lapio a deunydd pacio

Ymwelwch â'r siop arlein

www.boxshopsupplies.co.uk

MID WALES

STORFA CANOLDARTH CYMRU

Ffôn—01654 703592

www.midwalesstorage.co.uk

Heol y Ddŵl, Machynlleth, Powys, SY20 9BQ



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ebrill.

1. Gwefan y Cyngor

Mae'r cyn-glerc wedi ennill ei frwydr, ac mae gwefan y Cyngor Cymuned yn fyw o'r diwedd. Cyfeiriad y wefan yw: <http://www.ceulanamaesmawr.org.uk/>. Mi fydd cofnodion ac agenda'r Cyngor yn cael eu huwchlwytho yn rheolaidd, a cheir hefyd ddyddiadur cymunedol ar gyfer y plwyf, yn ogystal â manylion cyswllt cymdeithasau a sefydliadau lleol.

2. Tocio Cloddiau

Nodwyd yn adroddiad mis Chwefror y Cyngor nad oedd cloddiau ger Penlon-las wedi euocio. Hoffai'r Cyngor ymddiheuro i Mrs Jones, Penlon-las am unrhyw drafferth a achoswyd iddi oherwydd y camgymeriad yma, gan nad yw'r clawdd yn berchen iddi hi. Wrth drafod cloddiau'r pentref, penderfynwyd hefyd i gysylltu gydag Adran Cefnffyrdd y Llywodraeth ynglŷn â'r broblem gyffredinol o dwito cloddiau ar hyd y briffordd.

3. Gwaredu Gwastraff Gwyrdd yn Gyfrifol

Cododd y Cyngorydd Gerwyn Jones y broblem o waredu gwastraff gwyrdd yn afonydd Tal-y-bont. Tanlinellodd y pwysigrwydd fod pawb yn y gymuned chwarae eu rhan i osgoi neu leihau'r tebygolrwydd o lifogydd, fel y gwelwyd ym Mehefin 2012, a gan hynny, yn gwaredu eu gwastraff gwyrdd yn gyfrifol. Am unrhyw gwestiynau, gellir galw'r Cyngor Sir ar 1545 572 572 neu e-bostio hpw@ceredigion.gov.uk.

4. Patsyn Plant Maes-y-Deri

Adroddodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn y newyddion da bod adroddiad y bargyfreithiwr Mr Emyr Gweirydd Jones yn argymhell y dylai'r Cyngor Sir fel yr Awdurdod Cofrestru Tir Comin dderbyn y cais ar gyfer cofrestru tir ym Maes-y-Deri fel Maes Pentref oni bai am y tir hynny sydd i'r dde o'r llwybr troed. Llongyfarchiadau mawr i'r rheini fu'n gweithio mor galed dros yr achos.

5. Cyngor Sir Ceredigion – Arwydd Maes Chwarae Di-Fwg

Derbyniwyd cynnig gan y Cyngor Sir o arwydd 'Maes Chwarae Di-Fwg'. Cytunwyd i fanteisio ar y cyfle, a'i osod yn y Cae Bach.

6. Cyngor Sir Ceredigion – Fforwm 50+ Ceredigion

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Sir ynglŷn â fforwm 50+ Ceredigion. Maent yn chwilio am aelodau newydd i eistedd ar y fforwm. Er gwybodaeth, ni all aelodau'r Cyngor Cymuned fod yn aelodau. Os oes diddordeb gydag unrhyw un i fod yn rhan o'r fforwm, dylid cysylltu gyda gweneira.raw-rees@ceredigion.gov.uk cyn yr 8fed o Fai. At hyn, gwahoddir y rheini sydd â diddordeb mewn derbyn crynodebau ynglŷn â digwyddiadau fforwm 50+ Ceredigion i ymuno â'r rhwydwaith electronig trwy e-bostio'r cyfeiriad uchod.

7. CAVO – Gwobrau Cydnabod Gwirfoddolwyr

Mae CAVO yn gwahodd enwebiadau ar gyfer ei Gwobrau Cydnabod Gwirfoddolwyr yng Ngheredigion. Rhaid derbyn enwebiadau erbyn 15 Mai, 2014. Os hoffech ffurflen enwebu, gellwch e-bostio'r Clerc am gopi digidol: j.lowri@yahoo.co.uk

8. CAVO & Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth – Ffair Gwirfoddoli

Mae ffair gwirfoddoli CAVO yn cael ei chynnal yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth ar 5 Mehefin. Yn ystod y ffair bydd cyflwyniad o wobrau Cydnabyddiaeth Gwirfoddolwr Ceredigion 2014; cyfle i gwrdd â chymdeithasau sydd â chyfleoedd gwirfoddoli; gallwch roi cynnig ar brosiectau gwirfoddoli'r Llyfrgell; bydd teithiau tywys o'r adeilad a'r gerddi; ac mi fydd gweithgareddau i blant ifanc.

Ysgol Sul Bethel

Yng nghapel Bethel pnawn Sul y Pasg, cafwyd oedfa arbennig gan aelodau'r Ysgol Sul. Thema'r gwasanaeth oedd 'Dathlu'. Gyda cherddoriaeth, emynau, darlenniadau, eitemau amrywiol a 'pharty poppers' (!) llwyddwyd i gyfleu neges a hapusrwydd Sul y Pasg.

Diolch i Bedwyr, Betsan, Dyfri, Efa, Eli, Heddwyn, Heledd, Medi ac Ynyr ac i'r tîm o athrawon am eu gwaith. I ddilyn y gwasanaeth cafwyd parti 'atgyfodiad'.


Gweilch y Pysgod afon Dyfi

Pan ddaeth gwyliau'r Pasg roedd yn rhaid meddwl am rywle i fynd am dro ac am rywbeth newydd i'w weld. Doedd dim rhaid mynd yn bell eleni, oherwydd ar garreg ein drws rhwng Glandyfi a Derwen-las y mae safle Prosiect Gweilch Dyfi sy'n cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn. Rwyf innau, fel sawl un arall ohonoch rwy'n siŵr, wedi mynd heibio i'r lle ugeiniau o weithiau heb feddwl am daro i mewn i weld beth yn union sy'n digwydd yno.

Dros benwythnos y Pasg cafwyd cyfle i alw heibio, ac roedd yn anodd cael lle i barcio ar y cychwyn gan fod tipyn o brysurdeb yno. Hwnnw oedd y penwythnos pan oedd y Tŵr Gwyllo newydd ar agor i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Trwy gymorth grant Cronfa'r Loteri codwyd tŵr gwyllo modern 360 gradd sy'n rhoi cyfle i ymwelwyr gael golwg fanylach drwy sbienddrych ar bâr o weilch y pysgod sydd wedi cyrraedd cors Ddyfi ers dechrau mis Ebrill. Am fod camerâu wedi eu gosod ar bolyn wrth ymyl y nyth a'r glwyd, mae modd gweld lluniau byw o'r adar ar bedair sgrin fawr yn y caban wrth fynedfa'r warchodfa pan fyddwch yn mynd i mewn. Mae lluniau byw o un camera hefyd yn cael eu dangos 24 awr y dydd ar wefan y prosiect, <http://dyfiospreyproject.com/stream>.

Un o aelodau'r staff a oedd ar ddyletswydd pan alwais heibio y diwrnod hwnnw oedd Alwyn Ifans, sy'n adarwr gwybodus iawn. Yn Rhiwlas ger Bangor y magwyd Alwyn, ac mae ef a'i deulu'n byw yn Rhostryfan ger Caernarfon. Ond am saith mis o'r flwyddyn, rhwng dechrau Mawrth a diwedd Medi, mae'n byw ar faes carafanau Morben ac yn gweithio yn y warchodfa bum niwrnod yr wythnos. Mae'n ei elfen, meddai, oherwydd nad yw'r gwaith y mae'n ei wneud yn teimlo fel gwaith iddo fo am fod gwyllo a thrafod adar wastad wedi bod yn hobi ganddo. Byth er pan oedd yn yr ysgol gynradd yn y Rhiwlas, mae wedi ymddiddori ym myd natur, ac fe'i clywir yn aml ar raglen 'Galwad Cynnar' ar Radio Cymru yn trafod adar. Mae'n derbyn cyflog am weithio fel tywysydd ac am rannu ei wybodaeth ag aelodau'r cyhoedd. Mae'n hynod falch fod ei ŵyr Owain, sy'n 8 oed, yn ymddiddori'n fawr mewn adar ac yn dysgu ac yn defnyddio'r enwau Cymraeg arnynt.

Wrth sgwrsio ag Alwyn fe ddois innau i ddysgu mwy am weilch y pysgod ac am y warchodfa. Yn Gambia a Senegal ar arfordir gorllewinol Affrica y mae'r gweilch yn gaeafu, a phob gwanwyn maent yn hedfan yn ôl filoedd o filltiroedd i ogledd Ewrop. Mae'r pâr a ddaeth i gors Dyfi ddechrau Ebrill (Glesni a Maldwyn a roddwyd yn enwau arnynt) wedi eu tagio, ac felly rydym yn gwybod iddynt hedfan i orllewin Cymru o warchodfa Rutland yn nwyrain Lloegr, a pharu yma. Tra bydd yr iâr yn gori ar y nyth, y ceiliog fydd yn pysgota, ac fe all ddal dros 500 o bysgod mewn tymor. Yr hyrddyn llwyd (*grey mullet*) yw hanner yr holl bysgod sy'n cael eu dal gan weilch afon Dyfi, a'r pysgod eraill sy'n cael eu pysgota ganddynt yw lleden fwd, brithyll a draenog môr (*bass*). Mae pwll o'r enw Pwll Draenog i'w gael heb fod ymhell o'r warchodfa, ac mae hwn yn cael ei gamgyfieithu i'r Saesneg gan rai pobl anwybodus fel '*Hedgehog Pool*'. Fel yr esboniodd Alwyn, fe alwyd y pwll ar ôl y pysgodyn.



Alwyn Ifans yr adarwr

Er nad wyf yn adarwr brwd, mae'n rhaid cyfaddef imi gael cryn wefr yn gwyllo'r ceiliog, Maldwyn, yn hofran uwch yr afon yn y pellter cyn plymio'n sydyn i'r dŵr a hedfan yn ôl i'r nyth yn cario lleden fwd yn ei grafanc. Roedd modd gweld y pysgodyn yng nghrafanc yr aderyn yn glir iawn drwy'r telesgop pwerus yn y Tŵr Gwyllo.

Er mai dod i weld y gweilch y mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n ymweld â'r warchodfa – amcangyfrifai Alwyn fod dros 1500 o bobl wedi galw heibio yn ystod penwythnos y Pasg – nid nhw yw'r unig adar sydd i'w gweld yno. Roedd cwt gwyllo pren arall ar goesau ar gael lle gallech fod yn gwyllo teloriaid yr hesg, yr helyg a'r cyrs, y llwydfron a'r troellwr bach yn bwydo, ac mae'r boda tinwen yn ymwelydd cyson. Er na chlywais y gog yn canu ystod f'ymweliad i, dywedodd Alwyn iddo'i chlywed gyntaf ar gyrion y warchodfa eleni ar 19eg o Ebrill. Cyn bo hir hefyd, fe fydd ychen y dŵr (*water buffalos*) yn dychwelyd i'r gors am eu bod yn anifeiliaid delfrydol ar gyfer rheoli'r tyfiant.

Mae gan Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn gymaint â 100 o wirfoddolwyr, ac mae llawer o'r rheini'n fodlon gwarchod y safle gyda'r nos rhag ofn fod lladron wyau o gwmpas. Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith a fyddai'n hoffi gweithio fel twyswyr yng nghors Dyfi. Os oes gennych ddiddordeb, yna bydd naill ai Alwyn Ifans neu Emyr Evans, rheolwr y prosiect, yn falch iawn o glywed gennych. Rhwch ganiad iddynt ar 01654 781 414.

Bydd cryn gyffro pan fydd Glesni'n dodwy wyau ddechrau Mai, ac os oes arnoch awydd treulio awr ddifyr neu ddwy yn gwyllo'r gweilch a'r adar eraill yn y warchodfa, yna gellwch wneud hynny unrhyw bryd rhwng 10 y bore a 6 yr hwyr saith diwrnod yr wythnos. Does dim tâl mynediad, ond disgwylir i bob oedolyn gyfrannu £2.50 fel rhodd, os ydynt yn dymuno.

BH

Y Gair Olaf



Mae heddiw'n ddydd Iau y cyntaf o Fai, roeddwn i allan yn gynnar y bore yma, ac yr oedd yn fore tawel, dim awel o wynt dim ond bref ambell i ddafad a cheiliog ffesant neu ddau yn herio ei gilydd.

Mi aeth y tawelwch a'r llonyddwch â mi yn ôl i amser fy mhlentynod yn cerdded i'r ysgol yn blentyn chwech, saith oed.

Yn y cyfnod hwnnw roedd bron pob fferm yn yr ardal yn gwerthu llaeth, y fuchw ddu oedd y prif gyfrannydd a godro efo llaw. Roedd yr un sefyllfa yn bodoli yma ym Mhenywnern, rhyw ddwy neu dair *churn* ar y mwyaf oedd y mesur, a mynd â nhw bob bore i stand laeth Llwynglas. Y peiriant cludo oedd *float*, rhyw gert fach isel ac olwynion teiars arni, a chobyn Cymreig yn y siafftiau, 'Dic', golygfa a fyddai heddiw yn tynnu cryn sylw. Dadlwytho ac yna ymlaen i Ty'ngwndwn fel bod ni'r plant yn cael ychydig mwy o reid, yna cerdded drwy gaeau Tan'rallt i Frondirion ac yna ar hyd y ffordd i'r ysgol.

Beth sydd wedi aros yn y cof oedd y gog yn canu yn ddi-baid. Yr hen aderyn bach diog, creulon a diegwyddor y mae pob un ohonom yn dyheu am ei chlywed bob gwanwyn.

Yn bersonol nid wyf wedi ei chlywed eleni, ac nid oes gennyf gof i mi ei chlywed llynedd chwaith. Oni fyddai yn beth trist pe bai i'n plant a'n hwyrion fynd trwy fywyd heb ei chlywed? Beth, tybed, yw'r rheswm, hwyrach bod rhywun yn rhywle ag ateb?

Bob Williams

Chwaraeon

DATHLU YN Y GLAW

Roedd yn bwrw'n drwm iawn ar faes Cae Baker, Penrhyn-coch, nos Iau gyntaf mis Mai ond nid oedd hynny am amharu ar y dathliadau wrth i dîm pêl-droed Tal-y-bont ennill tlws am y tro cyntaf ers rhai blynnyddoedd.

Rhodddwyd y siom o golli i Aberdyfi yn y gynghrair bythefnos yn ôl o'r neilltu, wrth i'r bechgyn feistrolï'r chwarae yn rownd derfynol Tlws Ail Adran y Gynghrair yn erbyn y tîm o Feirionnydd. Go brin chwaith y ceir goliau gwell na thair o'r pedair a sgoriwyd ar y noson. Wedi i un o gefnwyr Aberdyfi benio'r bêl i'w rwyd ei hun i roi Tal-y-bont ar y blaen, sgoriwyd tair gôl wirioneddol wfreiddiol. Daeth y gyntaf o gic rydd o gryn bellter o'r gôl gan y capten Clive 'Djemba' Morgan a darodd y bêl yn gelfydd i gornel y rhwyd. Yna cafwyd ergyd nerthol gan Jamie Evans o ymyl y cwrt cosbi a fyddai wedi curo unrhyw gôl-geidwad yn y byd, i wneud y sgôr yn 3-0 ar yr egwyl. Yn yr ail hanner ergyd cywir arall o droed Todd Penfold ddaeth â'r bedwaredd gôl i gau pen y mwdwl ar noson bleserus i'r tîm a'r holl gefnogwyr a oedd wedi heidio draw i Benrhyn-coch.



Y capten, Clive Morgan, gyda'r tlws.

Ffeinal Cwpan y Gynghrair (dan 12)

Tal-y-bont v. Penrhyn-coch
Cae Pêl-droed Aberystwyth
10 Mai, 10am



Y tîm yn dathlu wedi'r gêm

Ar ddiwedd y gêm, cyflwynwyd y darian i Clive Morgan gan gadeirydd y Gynghrair, Tom Parry-Edwards, a mawr fu'r dathlu wedi hynny.

Pan ddaw'r rhifyn hwn o *Bapur Pawb* allan ar 9 Mai, byddwn yn gwybod a lwyddodd y clwb i ennill pencampwriaeth yr Ail Adran gan y cynhelir gêm olaf y tymor y noson gynt yn erbyn Trydydd Tîm y Coleg. Byddai ennill neu sicrhau gêm gyfartal yn ddigon i Dal-y-bont gipio'r bencampwriaeth ond, beth bynnag a ddigwydd, mae'r clwb eisoes wedi ennill dyrchafiad i'r Adran Gyntaf.

Gyda thipyn o lwc, gallai'r clwb fod wedi ennill y bencampwriaeth ar 19 Ebrill ond collwyd o dair gôl i ddwy oddi cartref yn Aberdyfi. Roedd Tal-y-bont ar y blaen ddwywaith yn y gêm gyda goliau gan Jamie Evans a gôl i'w rwyd ei hun gan gôl-geidwad Aberdyfi, ond yn yr hanner awr olaf daeth eilyddion o dîm cyntaf Aberdyfi i'r maes gan weddnewid y chwarae. Gyda phum munud yn weddill, ac Aberdyfi ar y blaen 3-2, dyfarnwyd cic o'r smotyn i Dal-y-bont. Gwaetha'r modd, tarwyd y gic yn erbyn y postyn a chollwyd y cyfle i gipio pwynt o leiaf.

Er y siom ar y prynhawn hwnnw, dyma dymor gorau Tal-y-bont ers blynnyddoedd lawer a llongyfarchiadau i'r clwb ar y llwyddiant.



Yn y gêm ar 19 Ebrill, dan bwysau gan flaenwyr Tal-y-bont, colodd gôl-geidwad Aberdyfi'r bêl o'r gic gornel hon ac fe laniodd y bêl yng nghefn y rhwyd am ail gôl Tal-y-bont.

Y Teigrod yn rho



Ar ddechrau tymor 2013-14, ffurfiwyd tîm pêl-droed i ferched dan 11 mlwydd oed o'r ardal, sef Teigrod Tal-y-bont. Hyfforddwyd y tîm gan Karen Evans sydd wedi ennill enw da dros y blynnyddoedd wrth hyfforddi merched yn y gamp.

Wrth i'r tîm ennill cryn dipyn o brofiad dros y tymor, canmolwyd y merched gan hyfforddwyr eraill am eu hymroddiad a'u sgiliau. Mae'r tîm yn cystadlu mewn gemau cyfeillgar yng Nghynghrair Ceredigion ac mae sawl aelod o'r tîm wedi'u dewis i Garfan Datblygu Canolbarth Cymru.

Uchafbwynt y tymor oedd ennill Tlws y Plât yn Nhwrnamaint Eric ac Arthur Thomas Penrhyn-coch, gan guro Penparcau 3-0 yn y ffeinal. Ar ben hyn, dyfarnwyd Tlws Gwenno Tudur am y chwaraewraig orau dros y penwythnos i Lisa Cowdy o dîm y Teigrod.

Llongyfarchiadau i Karen a Lisa yn benodol ac i'r tîm yn gyffredinol.